Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Friars**
**Lon Y Bryn**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2LN**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2011**

**gan**

**Mr Peter Harris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Friars yn ysgol gyfun ddwyieithog i 1328 o fechgyn a merched rhwng 11 a 18 oed, gan gynnwys 235 yn y chweched dosbarth o'u gymharu â 1312 o ddisgyblion a myfyrwyr pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf.

Mae dros 14% o'r dysgwyr â'r hawl i brydau ysgol am ddim o'i gymharu â'r cyfartaledd i ysgolion uwchradd yng Nghymru o ychydig dros 17%. Daw tua 4% o ddysgwyr o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Ar hyn o bryd, mae 13% o ddysgwyr yn dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r disgyblion a dderbynnir gan yr ysgol yn cynrychioli'r ystod lawn o allu. Mae gan 3% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Ar fynediad i'r ysgol, mae gan gyfran arwyddocaol o'r dysgwyr oed darllen sydd yn fwy na chwe mis yn is na'u hoed cronolegol.

Cychwynnodd y pennaeth yn ei swydd ym 1997. Mae'r uwch dîm rheoli cyfredol yn cynnwys dau ddirprwy bennaeth a phedwar pennaeth cynorthwyol. O'r uwch dîm rheoli presennol, roedd y pennaeth a dau bennaeth cynorthwyol yn eu swyddi pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf.

Mae'r ysgol yn ceisio darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr ddatblygu'r wybodaeth, yr ymagweddau a'r medrau i fyw bywydau effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda phum ysgol uwchradd arall a'r coleg addysg bellach lleol er mwyn gwella'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Yn 2011-2012, roedd y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Friars yn £3,942 sydd yn cymharu gydag uchafswm o £5,098 ac isafswm o £3,942 ar gyfer ysgolion uwchradd yng Ngwynedd. Ysgol Friars sydd â'r gyllideb isaf fesul disgybl o'r 14 o ysgolion uwchradd yng Ngwynedd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae nifer o nodweddion da i waith yr ysgol.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyrhaeddiad dysgwyr yn y mwyafrif o'r dangosyddion perfformiad;
- ychydig iawn o ddysgwyr yn gadael yr ysgol heb gymwysterau;
- gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd da mewn llawer o wersi;
- cwricwlwm eang a chytbwys;
- addysgu effeithiol sydd wedi ei gynllunio'n dda mewn llawer o wersi; a
- lefel uchel o gefnogaeth i les y dysgwyr.

Fodd bynnag, barnwyd perfformiad cyfredol yr ysgol yn foddhaol gan yr arolygwyr oherwydd:

- mewn ychydig o ddangosyddion, nid yw perfformiad wedi dangos cynnydd cyson;
- bu tanberfformiad cymharol mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- mae'r cydlynu a'r monitro o fedrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn aneffeithiol
- mewn lleiafrif o wersi lle nad yw'r addysgu yn eu herio'n llawn, nid yw dysgwyr yn gwneud digon o gynnydd; ac
- mae presenoldeb wedi bod yn ddigonol o'i gymharu â'r hyn mewn ysgolion tebyg.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn dda oherwydd y:

- cyfeiriad strategol eglur sydd wedi ei dargedu'n dda i waith yr ysgol;
- dynodiad realistig o gryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer gwelliant;
- cynlluniau gwelliant priodol; a'r
- partneriaethau cadarn sydd yn cyfrannu'n dda at ddeilliannau a lles y dysgwyr.

## Argymhellion

A1 Parhau i wella safonau yn gyffredinol a safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg yn benodol.

A2 Datblygu ymdriniaeth gydlynol i'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a monitro ei effaith.

A3 Gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu er mwyn denu a chynyddu lefel yr her i'r holl ddysgwyr.

A4 Gweithredu systemau trylwyr ar gyfer monitro ag adolygu arfer dosbarth.

A5 Gwella presenoldeb.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu fydd yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd y cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
| --- | --- |

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yr ysgol o gwmpas y cyfartaledd o'u gymharu ag ysgolion tebyg. Mae mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf ac maent yn uwch na'r cyfartaledd o'u cymharu ag ysgolion tebyg, tra bod Saesneg tua'r cyfartaledd. Yn gyffredinol, mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn dda.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn perfformio'n dda mewn dangosyddion sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau, yn enwedig cymwysterau galwedigaethol. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ystod dda o ddewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr. Yn y dangosyddion hynny sydd yn cynnwys Saesneg a mathemateg, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sydd yn gyffredinol dda dros y tair blynedd diwethaf ac mae ei pherfformiad bellach tua'r cyfartaledd o'i gymharu gydag ysgolion tebyg.

Fodd bynnag, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg yn is nag yw mewn ysgolion tebyg; mewn Saesneg mae'n sylweddol is.

O'i gymharu â'u perfformiad yn y cyfnodau allweddol blaenorol, gwna'r disgyblion gynnydd priodol.

Yn gyffredinol, mae cyrhaeddiad dysgwyr ôl-16 yn dda. Mae canran y dysgwyr ôl-16 sydd yn cyrraedd y trothwy lefel 3 wedi bod ychydig dros y cyfartaledd cenedlaethol yn y blynyddoedd diweddar. Mae cyrhaeddiad ar y sgôr pwyntiau eang dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y cyfnod hwn.

Ar y cyfan, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 3 tra bod bechgyn yn perfformio'n well na'r merched yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mewn Cymraeg iaith gyntaf mae tanberfformiad cymharol y bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol yn arwyddocaol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni yn ôl y disgwyliadau.

Gwna'r dysgwyr gynnydd da yn y mwyafrif o wersi. Maent yn ennill gwybodaeth newydd ac yn medru ei gymhwyso wrth feistroli cysyniadau newydd a datrys problemau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o wybodaeth a chysyniadau newydd sydd yn ddigon cadarn nac yn datblygu eu medrau yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n astud. Fodd bynnag, nid yw ychydig yn gwrando'n ddigon gofalus ar esboniadau eu hathrawon nac ar safbwyntiau dysgwyr eraill. Mae llawer yn medru cyfrannu'n feddylgar i drafodaethau dosbarth cyfan, ac i drafodaethau mewn parau neu mewn grwpiau bychan. Mae dysgwyr mwy galluog yn mynegi eu safbwyntiau'n hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn tynnu a dehongli gwybodaeth o destunau yn effeithiol. Mae llawer yn ysgrifennu'n dda i ystod o ddibenion; mae dysgwyr mwy galluog yn cynhyrchu dadansoddiadau cytbwys a rhesymegol ac yn ysgrifennu'n estynedig. Gwna lleiafrif o ddisgyblion o bob gallu camgymeriadau gramadeg sylfaenol a sillafu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd yn derbyn cefnogaeth dal-i-fyny wedi ei dargedu mewn llythrennedd yn gwneud cynnydd da. Mae dysgwyr yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn datblygu medrau da mewn mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

**Lles: Da**

Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach ac mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ymarfer corfforol a gwella eu diet. Mae lefelau da o gyfranogi yn amlwg mewn gweithgareddau ffitrwydd a chwaraeon.

Mae'r ysgol yn ymwneud yn dda â'r gymuned ac mae'r dysgwyr yn ennill lefelau da o wybodaeth, profiad a hyder o'r bartneriaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rôl gadarnhaol mewn amrediad eang o weithgareddau yn y gymuned leol a thu hwnt.

Gwna disgyblion ar draws yr holl oedrannau gyfraniad cadarn i amryw o agweddau o fywyd ysgol trwy weithgareddau'r cyngor ysgol, y grwpiau eco ac ailgylchu a'r grŵp maeth, gan gynnwys cyflwyniadau i a chyfranogi yng ngwaith y corff llywodraethu.

Teimla bron yr holl ddysgwyr yn ddiogel a hyderus o fewn yr ysgol. Ychydig iawn yw'r achosion o fwlian a geir. Mae dysgwyr yn elwa oddi wrth berthynas waith cadarn ac mae ethos o ymddiriedaeth yn bodoli rhyngddyn nhw a'r staff.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn uchel eu cymhelliant ac yn ymddwyn yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw ychydig o ddysgwyr yn ymrwymo'n llwyr nac yn rhoi sylw.

Er waetha cyflwyno nifer o strategaethau wedi eu hanelu at wella presenoldeb, mae'r lefelau yn sylweddol is na'r cyfartaledd.

Mae'r dysgwyr a ddynodwyd i dderbyn cymorth wedi ei dargedu er mwyn codi eu hunan-barch yn gwneud cynnydd da.

Mae medrau cymdeithasol a bywyd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu'n dda. Mae dysgwyr wedi elwa o gymryd rhan mewn amrediad o brosiectau cymunedol a digwyddiadau codi arian i elusennau.

Mae llawer o'r myfyrwyr hŷn yn gwirfoddoli fel bydis darllen i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7 ag 8 neu fel tiwtoriaid ar raglen dal-i-fyny'r ysgol mewn darllen.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'n sicrhau y rhoddir amser digonol i ymdrin â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n dda ar y profiadau dysgu a enillwyd yng nghyfnod allweddol 2. Mewn Cymraeg iaith gyntaf, mae'r dilyniant i ddysgwyr o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 yn ddigonol.

Mae'r ysgol yn diwallu anghenion dysgwyr cyfnod allweddol 4 ac ôl-16 yn dda. Mae'n cynnig ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4. Caiff yr holl ddysgwyr y cyfle i ennill cymwysterau. Mae partneriaeth gynhyrchiol yn bodoli gyda Choleg Menai a gydag ysgolion partner eraill yn yr ardal. Mae'r ysgol yn rhagori ar ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru). Cyflwynir cwricwlwm perthnasol i'r holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr mwy galluog a dawnus er mwyn iddynt ennill cymwysterau ychwanegol pan yn briodol.

Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth sicrhau fod bron yr holl ddysgwyr yn dilyn y maes astudiaeth o'u dewis yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16. Mae'r ysgol yn paratoi ac arwain dysgwyr yn dda ar gyfer gwneud eu dewisiadau pwnc ac wrth gynllunio ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19.

Mae amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol. Maent yn darparu ystod o brofiadau o weithgareddau drama, chwaraeon a cherddoriaeth at y gwaith elusennol canmoladwy mae'r dysgwyr yn ymgymryd.

Ar y cyfan, mae'r cyflwyno o fedrau allweddol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn ddigonol. Ceir darpariaeth dda ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r mapio o gyfraniadau oddi wrth bynciau eraill, mae'r cyflwyniad yn dda. Mae'r ddarpariaeth mewn rhifedd yn datblygu'n dda.

Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddysgwyr wella eu medrau llythrennedd yn danddatblygedig. Er bod darpariaeth briodol er mwyn datblygu medrau dysgwyr sydd ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, nid oes digon o gynllunio a chydlynu ar gyfer datblygu medrau llythrennedd i'r holl ddisgyblion o fewn yr holl bynciau ar draws yr ysgol.

Mae'r cyfleoedd i ddysgwyr ennill cymwysterau am eu medrau yn gyfyngedig.

Mae'r ddarpariaeth yn yr iaith Gymraeg yn dda. Caiff tua hanner y dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cwrs hir TGAU mewn Cymraeg ail iaith, mae'r gweddill yn dilyn y cwrs TGAU mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae llawer o adrannau'n cyfrannu'n effeithiol tuag at gyflwyno'r dimensiwn Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn darparu digon o gyfleoedd i ddatblygu a chodi statws y Gymraeg a dwyieithrwydd.

Ceir cyfleoedd da i ddatblygu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae gwaith y grŵp eco yn effeithiol ac mae eu gwaith ailgylchu yn dda iawn.

### Addysgu: Digonol

Mae'r addysgu yn dda mewn llawer o wersi ac yn rhagorol mewn ychydig. Fodd bynnag, mae diffygion pwysig mewn lleiafrif o wersi.

Lle mae'r addysgu yn dda neu ragorol, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi yn ddychmygus er mwyn cymell ac ymrwymo'r dysgwyr ac i'w galluogi i weithio'n weithredol a chydweithrediadol yn eu dysgu. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn sicrhau fod yr holl ddysgwyr yn datblygu gwybodaeth a medrau sydd yn eu helpu i ddysgu'n fwy effeithiol. Mae cyflymder y dysgu yn aml yn fywiog ac ysgogol gyda her a disgwyliadau uchel i bawb. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol da, ac mae llawer ohonynt yn fedrus wrth ddefnyddio cwestiynu â chyfeiriad da ynghyd ag ystod o adnoddau sydd yn cydweddu'n dda i ddenu dysgwyr i drafodaeth ac ymestyn eu hymresymiad a'u dealltwriaeth. Mae'r cydberthynas rhagorol rhwng y staff a'r dysgwyr yn hyrwyddo amgylchedd ddysgu cadarnhaol a chynnydd da. Mae sesiynau llawn sydd wedi eu harwain yn dda yn gwella'r dysgu.

Yn y lleiafrif o wersi lle mae diffygion pwysig, mae disgwyliadau isel, ystod gyfyng o weithgareddau ac ymdriniaethau sydd wedi eu cydweddu'n wael, rheolaeth dosbarth ansicr a gormod o siarad gan athrawon yn arwain at gyflymder araf a dealltwriaeth arwynebol.

Mae athrawon yn marcio ac asesu gwaith dysgwyr yn rheolaidd fel eu bod yn gwybod pa mor dda maent yn perfformio. Mae llawer yn rhoi adborth adeiladol ac awgrymiadau penodol ar gyfer gwelliant. Mewn lleiafrif o achosion, mae'r marcio yn llai defnyddiol ac nid yw'n dynodi meysydd i'w dilyn i fyny. Mewn nifer o bynciau, caiff ymdriniaethau megis asesu cymheiriaid a hunan asesu eu defnyddio'n dda i helpu'r dysgwyr ddeall sut i wneud cynnydd a sefydlu targedau gwelliant.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwybod eu lefelau cyflawniad cyfredol a disgwyliedig. Mae system tracio ysgol-gyfan yn monitro cynnydd dysgwyr, yn dynodi tangyflawniad yn brydlon ac yn galluogi athrawon i ddarparu'r ymyrraeth briodol.

Mae adroddiadau interim a diwedd blwyddyn o ansawdd dda yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i rieni ar gynnydd, ymdrech a chyrhaeddiad. Mae sylwadau'n benodol ac yn dynodi sut i wella yn eglur i'r dysgwyr.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i annog a chynnal iechyd a lles y dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr a'u rhieni yn datgan fod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn datgan nad yw'r ysgol yn rhoi digon o sylw i'w safbwyntiau a gwneud newidiadau fel maent wedi awgrymu.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus.

Gwna'r ysgol gysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau eraill er mwyn darparu ystod eang o wasanaethau cynnal ac arbenigol. Mae rhaglenni sefydlu a gynlluniwyd yn dda yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth dda i'r dysgwyr o'u hysgol. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi ei gynllunio'n dda ac

yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad da er mwyn sicrhau fod dysgwyr yn gwneud dewisiadau deallus.

Caiff disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol eu dynodi'n gynnar ac maent yn derbyn darpariaeth sydd wedi ei gynllunio'n dda mewn dosbarthiadau dynodedig. Mae'r disgyblion hynny caiff eu neilltuo ar gyfer gwersi llythrennedd penodol yn derbyn cefnogaeth dda.

Mae'r cynlluniau addysgol unigol yn fanwl, ond nid yw'r strategaethau a argymhellir bob amser yn cael eu cymhwyso a ni chaiff y tasgau eu haddasu'n gyson i ddiwallu eu hanghenion mewn dosbarthiadau prif-ffrwd. Mae'r cynorthwywyr dysgu yn darparu cefnogaeth dda ond nid yw effaith eu gwaith yn cael ei fonitro'n ddigonol.

Mae gan yr ysgol bolisi diogelwch priodol yn ogystal â gweithdrefnau diogelwch.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus lle caiff amrywiaeth ei barchu a'u ddathlu. Mae dysgwyr yn rhoi sylwadau ffafriol iawn am ethos yr ysgol. Teimlant yn ddiogel. Maent yn elwa oddi wrth lefelau da o ofal a chefnogaeth unigol. Mae gwasanaethau a gwersi addysg bersonol a chymdeithasol yn galluogi dysgwyr i ymdrin yn gadarnhaol â materion amlddiwylliannol ag amrywiaeth. Darperir mynediad cyfartal i'r cwricwlwm, dewisiadau pwnc a gweithgareddau allgyrsiol i bron yr holl ddysgwyr.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddysgwyr. Mae'r dosbarthiadau dysgu cyffredinol a'r ardaloedd arbenigol o ansawdd dda. Caiff y campws ei gynnal a'i gadw yn dda ac mae'n lân.

Caiff yr adnoddau eu cydweddu i anghenion y dysgwyr gyda chyfleusterau da ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a llyfrgell. Mae'r arddangosfeydd yn y coridorau a'r dosbarthiadau yn cefnogi'r dysgu ac yn dathlu cyflawniad yn effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth gyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol. Caiff ei gefnogi'n dda gan ei uwch dîm rheoli. Gyda'i gilydd maent yn rhoi cyfeiriad eglur i waith yr ysgol a'i datblygiad i'r dyfodol.

Mae'r pennaeth wedi cyflwyno cyfres o fesurau er mwyn sicrhau fwy o gysondeb i waith yr ysgol. Mae'r trefniadau hyn yn dechrau cael effaith cadarnhaol ar waith yr ysgol.

Mae bron yr holl staff ar bob lefel yn eglur am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn ymgymryd â nhw yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae rheolwyr uwch yn wybodus am waith yr adrannau a'r grwpiau blwyddyn ac yn darparu cefnogaeth dda.

Mae'r rheolwyr canol yn dod yn gynyddol atebol am eu meysydd o gyfrifoldeb.

Yn gyffredinol, mae corff llywodraethu'r ysgol yn drefnus ac yn briodol o wybodus am berfformiad yr ysgol. Maent yn cydweithio'n dda gyda'r pennaeth er mwyn cytuno strategaethau datblygu a monitro cynnydd yr ysgol tuag at ei thargedau. Mae'r llywodraethwyr yn datblygu eu rolau fel ffrindiau beirniadol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol megis Llwybrau Dysgu, byw yn iach a phartneriaethau gyda darparwyr eraill.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r cylch o fonitro, arfarnu ac adolygu yn gadarn yng ngweithdrefnau'r ysgol. Mae rheolwyr uwch a chanol yn dadansoddi data perfformiad yn fanwl ac yn ei ddefnyddio i osod targedau heriol. Gwnânt ddefnydd o ystod eang o wybodaeth uniongyrchol i wneud arfarniadau rhesymegol am berfformiad. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o arsylwadau gwers i farnu safonau yn y dosbarth.

Mae cynllunio ar gyfer gwelliant yn datblygu'n gyson ac yn tynnu ar ganlyniadau hunan arfarnu. Mae'r cynlluniau yn dynodi adnoddau ac yn amlinellu meini prawf llwyddiant, ond mae diffyg manylder i'r rhain.

Gwna amryw o athrawon gyfraniadau gwerthfawr tuag at ddatblygiad a rhannu gwybodaeth broffesiynol gydag ysgolion eraill. Mae trefniadau effeithiol o fewn yr ysgol yn helpu sicrhau y rhennir arfer da. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol, er enghraifft yn ansawdd y gefnogaeth ar gyfer dysgwyr bregus.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r adroddiad ar yr arolygiad diwethaf ac wedi eu gweithredu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi ffurfio partneriaethau cryf ac effeithiol gyda darparwyr eraill sydd wedi gwella ystod y dewisiadau cwricwlwm i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau cwricwlaidd da gyda'i ysgolion partner cynradd er mwyn hwyluso dilyniant a pharhad yn y profiadau dysgu. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r gymuned, yn benodol 'Balchder Bangor', a chysylltiadau da gyda'r rhieni/gofalwyr. Mae'n cydweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i wella deilliannau a lles dysgwyr.

Mae cysylltiadau rhagorol rhwng yr ysgol a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

**Rheoli adnoddau: Barn**

Mae'r pennaeth yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol iawn a chaiff gwariant ei gynllunio a'i fonitro'n dda. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hadnoddau o fewn cyfyngiadau cyllidebol.

Ceir lefelau staffio addas o staff addysgu sydd â'r cymwysterau priodol. Cânt oll eu lleoli'n effeithiol a chânt eu cefnogi'n dda gan staff ategol. Mae'r ysgol yn diwallu'r

holl ofynion statudol o ran y cytundeb cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith'. Mae rheolwyr uwch yn dynodi anghenion datblygiad proffesiynol athrawon trwy drefniadau rheoli perfformiad.

Mae'r rheolaeth o safle ac adeiladau'r ysgol yn dda iawn.

Yn dilyn eu harfarniad ar safonau barn yr arolygwyr yw bod yr ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn 2011, yng nghyfnod allweddol 3, roedd canran y dysgwyr oedd yn cyrraedd y dangosydd pynciau craidd (y perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) ychydig yn is na chyfartaleddau'r teulu a'r rhai cenedlaethol. O'i chymharu gydag ysgolion gyda chanran tebyg o ran prydau ysgol am ddim, disgynnodd yr ysgol i'r pedwerydd chwarter ar ôl bod yn uwch na'r cyfartaledd yn y ddwy flynedd flaenorol.

Roedd y canran o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 3 oedd yn cyrraedd lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg llawer yn is na'r cyfartaledd yn 2011. Ar lefel 6 ac uwch, roedd perfformiad mewn Saesneg yn 2011 yn unol â chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar y lefel hwn wedi bod yn gyson is na'r cyfartaledd o'i gymharu gydag ysgolion â chanran tebyg o brydau ysgol am ddim.

Mae canran y dysgwyr sydd yn cyrraedd lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, er yn 2011 roeddent yn uwch na'r cyfartaledd. Mae cyrhaeddiad dysgwyr cyfnod allweddol 3 mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson uwch na'r cyfartaledd dros y cyfnod hwn o amser.

Yn 2010, yng nghyfnod allweddol 4, roedd canran y dysgwyr oedd yn cyrraedd y trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a'r rhai cenedlaethol. Roedd canran y dysgwyr sydd yn cyrraedd y trothwy lefel 1 a'r sgôr pwyntiau ehangach (yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwyir yn allanol ar oed 16) hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, er yn is na chyfartaleddau'r teulu.

Yn 2010, o'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran y canran o ddysgwyr sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, roedd canrannau'r dysgwyr oedd yn cyrraedd lefel 2 mewn Saesneg a mathemateg yn gyfunol, mewn mathemateg a Chymraeg iaith gyntaf, yn is na'r cyfartaledd. Mewn gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd, roedd y canrannau o ddysgwyr oedd yn cyrraedd lefel 2 yn uwch na'r cyfartaledd. Yn 2010, roedd y canran o ddysgwyr oedd yn cyrraedd lefel 2 mewn Saesneg yn llawer is na'r cyfartaledd.

Mewn dwy allan o'r tair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg ac mewn Cymraeg iaith gyntaf wedi bod yn is na'r cyfartaledd o'i gymharu gydag ysgolion sydd â chanran tebyg o brydau ysgol am ddim.

Yn gyffredinol, mae cyrhaeddiad dysgwyr ôl-16 yn dda. Mae canran y dysgwyr ôl-16 sydd yn cyrraedd y trothwy lefel 3 wedi bod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y blynyddoedd diweddar. Mae cyrhaeddiad yn y sgôr pwyntiau eang dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y cyfnod hwn o amser.

Er bod merched ar y cyfan yn perfformio'n well na'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 3 a'r bechgyn yn perfformio'n well na'r merched yng nghyfnod allweddol 4, mae tanberfformiad cymharol y bechgyn mewn Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn arwyddocaol.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn ogystal â'r dysgwyr hynny sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn berthynol i'w galluoedd. Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad y dysgwyr sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad y disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim ychydig yn is na chyfartaledd y teulu.

Mewn tair allan o'r pedair blynedd diwethaf, mae canrannau'r dysgwyr sydd yn gadael cyfnod allweddol 4 heb unrhyw gymwysterau wedi bod yn is na'r cyfartaledd. Mae nifer cynyddol o ddysgwyr Blwyddyn 11 wedi parhau mewn addysg amser llawn. Mae nifer cynyddol o fyfyrwyr yn mynd ymlaen i addysg bellach ar ôl y chweched dosbarth.

Yn y mwyafrif o wersi, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da. Maent yn ennill gwybodaeth newydd ac yn medru ei gymhwyso wrth feistroli cysyniadau newydd a datrys problemau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw dysgwyr yn datblygu gwybodaeth digon cadarn o wybodaeth a chysyniadau newydd nag yn datblygu eu medrau yn ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n astud. Fodd bynnag, mae ychydig nad ydynt yn gwrando'n ddigon gofalus ar esboniadau'r athrawon nac ar safbwyntiau dysgwyr eraill. Mae llawer yn medru cyfrannu'n feddylgar i drafodaethau dosbarth cyfan neu mewn parau neu grwpiau bychan. Mae dysgwyr mwy galluog yn medru mynegi eu safbwyntiau'n hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn tynnu a dehongli gwybodaeth o destunau yn effeithiol. Mae llawer yn ysgrifennu'n dda i ystod o ddibenion; mae dysgwyr mwy galluog yn cynhyrchu dadansoddiadau cytbwys a rhesymegol ac yn ysgrifennu'n estynedig. Gwna lleiafrif o ddisgyblion o bob gallu camgymeriadau gramadeg sylfaenol a sillafu.

Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd yn derbyn cefnogaeth dal-i-fyny sydd wedi ei dargedu mewn llythrennedd gynnydd da. Mae dysgwyr yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn datblygu medrau da mewn mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 3, gwna'r dysgwyr gynnydd priodol mewn Cymraeg ail iaith.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafwyd 474 o ymatebion i holiadur y rhieni, mae hyn yn gyfran dda o holl rieni'r ysgol. O'r rhai a ymatebodd, rhoddodd lawer o rieni ymateb cadarnhaol neu gadarnhaol iawn i lawer o gwestiynau.

Mae llawer o rieni yn fodlon â'r ysgol. Maent yn datgan caiff ei rhedeg yn dda a bod eu plant yn ddiogel ac yn hoffi'r ysgol. Dynododd y rhan fwyaf o rieni fod eu plant wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae llawer yn ystyried y cynigir ystod dda iawn o weithgareddau allgyrsiol a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach. Teimlant yn gyfforddus iawn wrth droi at yr ysgol i drafod materion o ran addysg a lles eu plentyn.

Creda'r rhan fwyaf o rieni fod eu plant yn gwneud cynnydd da. Maent yn ystyried fod disgwyliadau'r staff yn dda a bod y gwaith cartref yn atgyfnerthu'r dysgu. Mae llawer yn dynodi fod yr addysgu'n dda a bod y staff yn cefnogi eu plant yn dda. Teimlant fod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu i'r coleg. Teimla'r mwyafrif helaeth o rieni eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant a chredant fod y staff yn trin yr holl blant yn deg a chyda pharch.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd 234 o ymatebion oddi wrth ddysgwyr, a ddewiswyd ar hap oddi ar draws yr ystod oedran. Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr y teimlant yn ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer yn dynodi fod ganddynt rywun i droi ato os oes ganddynt unrhyw bryderon a chredant fod yr ysgol yn ymdrin â bwlian yn dda.

Mae llawer o ddysgwyr yn datgan fod yr ysgol yn eu dysgu i fod yn iach a'r rhan fwyaf yn dynodi fod digon o gyfleoedd ar gael i ymarfer yn rheolaidd.

Ystyria'r rhan fwyaf o ddysgwyr eu bod yn gwneud yn dda a bod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae llawer yn credu fod ganddynt ddigon o lyfrau a chyfarpar a'r mwyafrif yn ystyried fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Teimla'r rhan fwyaf y cânt eu paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu waith.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cadarnhau fod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Dynoda llawer fod y staff yn eu trin yn deg a chyda pharch. Mae tua hanner yr holl ddysgwyr yn teimlo fod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau.

Mae tua chwarter o'r holl ddysgwyr yn mynegi pryder am ymddygiad.

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Peter Harris | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| David Hughes | Arolygydd Tîm |
| Andrew Herdman | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Rod Francis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Michell Hanlon | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |